


System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru (WNWRS)

Swyddi Gwag

Mae gan WNWRS y gallu i gadw data swyddi gwag ar gyfer practisiau meddygon teulu, sy'n bwydo'r modiwl adrodd. Os oes gennych swydd wag yn eich practis meddyg teulu, gallwch ei nodi yn WNWRS. Gallwch greu swydd wag newydd ar gyfer unrhyw swydd staff sydd ar gael yn eich practis meddyg teulu trwy glicio ar y botwm **Add Vacancy**. Gallwch hefyd bostio swyddi gwag ar wefan **GP Wales**, sydd ar gael trwy'r [ddolen](#) hon.



Canolbwyntio ar: Rifau cofrestru

At ddibenion dilysu ac adnabod, dylai fod gan bob Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol sy'n gweithio mewn practis rif Cofrestru dilys wedi'i nodi ar WNWRS. Rhwch yr wybodaeth hon yn y blwch 'Registration number', yn ardal Demograffeg ac Addysg y Cofnod Staff.

Y Camau sydd eu Hangen: Dylai Rheolwyr Practisiau Meddygon Teulu wirio bod gan bob Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol rif Cofrestru dilys wedi'i nodi ar WNWRS.

Diweddariad Locwm

Ydych chi'n defnyddio Meddygon Teulu Locwm yn eich practis meddyg teulu? Os felly, sicrhewch fod eich holl ddata Locwm yn gyfredol ar gyfer chwarter 3 (mis Gorffennaf i fis Medi) drwy naill ai nodi'r oriau rydych wedi'u defnyddio yn y tab **Locwm Usage** (ar gyfer Meddygon Locwm achlysurol) neu drwy greu Cofnod Staff llawn ar gyfer Meddygon Locwm sy'n cyflenwi ar gyfer swydd wag neu absenoldeb hir dymor.

PEIDIWCH AG ANGHOFIO cofrestru ar Locum Hub Wales – yr ateb ar gyfer holl anghenion Locwm eich practis.

Modiwl Adrodd

Yn dilyn lansiad Modiwl Adrodd WNWRS y mis diwethaf, gobeithiwn fod pob Rheolwr Practis Meddyg Teulu wedi cael cyfle i edrych ar y rhan newydd gyffrous hon o WNWRS.

Gellir gweld Data Practisiau Meddygon Teulu yn Ddiennw trwy glicio ar y tab **Data Reporting Module**, yna dewis y tab **Practice** ac yna **Practice Overview**. Yna gellir lawrlwytho ac argraffu adroddiadau trwy glicio ar y 3 llinell ar ochr dde uchaf y graffig.



Yn dod yn fuan - Gweithdai Rhithwir am WNWRS, sy'n cynnwys Mewnbynnu Data, Adrodd, yr Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol a Locum Hub Wales. Anfonir rhagor o fanylion am hyn at bob Rheolwr Practis Meddyg Teulu yn ystod mis Medi.

Syniadau ac Awgrymiadau

Swyddogaeth Chwilio'r Cyngor Meddygol Cyffredinol

Pan fyddwch yn nodi cofnod newydd ar gyfer meddyg teulu, gallwch ddefnyddio swyddogaeth chwilio'r Cyngor Meddygol Cyffredinol i lenwi'r rhif Cofrestru yn awtomatig.

I wneud hyn, nodwch Gyfenw y Meddyg Teulu a chlicio ar y

chwyddwydr wrth ei ymyl:



Dewiswch y meddyg teulu cywir trwy glicio ar **Choose this person** a bydd rhif Cyngor Meddygol Cyffredinol yn ymddangos yn y blwch rhif Cofrestru.

Nodwch y dylai'r holl feddygon teulu ddangos eu rhif Cyngor Meddygol Cyffredinol (7 digid) **NID** eu rhif Presgripsiynu (sy'n dechrau gyda G)

www.locumhubwales.co.uk

AWGRYM: Mae Locum Hub Wales yn gweithio orau gyda Google Chrome.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Partneriaeth
Cydwasaethau
Gwasanaethau
Cyflogaeth

Shared Services
Partnership
Employment Services

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso ichi gysylltu â ni:

Ffôn: 01792 860489
E-bost: NWSSP.PrimaryCareWNWRS@Wales.nhs.uk

Gallwch hefyd ymweld â'n gwefan drwy: <http://www.nwssp.wales.nhs.uk>